# YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J.Arwel Roberts (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr W.J.Chorlton, E.G.Davies, Lewis Davies, Richard Dew, Jim Evans, Kenneth Hughes, W.T.Hughes, R.L.Owen, Eric Roberts |
| **WRTH LAW**: | Swyddog Cynllunio (Mr Mark Davies)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Clive McGregor, Aled Morris Jones (Yr Aelod Lleol) |

---

**1 24C192D – CODI TYRBIN GWYNT GYDAG UCHDER HWB O HYD AT 15M, DIAMETR ROTOR O HYD AT 7.5M AC UCHDER MWYAF I BEN Y LLAFN O HYD AT 19M AR DIR YN RHIWLAS, NEBO, PENYSARN**

Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 6 Mehefin 2012 fe benderfynwyd y dylid ymweld â'r safle fel yr oedd yr Aelod Lleol wedi gofyn am hynny fel y gallai'r Aelodau weld y safle i gyd drostynt eu hunain a hefyd agosrwydd y cynnig i bentref Penysarn.

Dangosodd y Swyddog Cynllunio i'r Aelodau lle'r oedd safle'r cais mewn perthynas â dau eiddo cyfagos, a chadarnhaodd beth oedd mesuriadau'r tyrbin gwynt arfaethedig, sef un ag uchder hwb o hyd at 15m, diametr y llafnau yn hyd at 7.5m a gydag uchder mwyaf o hyd at 19m i flaen y llafn. Dangosodd y Swyddog hefyd gynllun o safle'r cais i'r Aelodau ac wedyn cylchodd ddarlun o safle'r cais o gyfeiriad y dwyrain gyda hynny hefyd yn rhoi syniad o'r math o dyrbin oedd yn cael ei fwriadu.  Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynglŷn â'r safle a hefyd ynglŷn â'r posibilrwydd o darfu ar y mast oedd gerllaw - dywedodd y Swyddog y byddai'n holi gyda'r corff sy'n edrych ar faterion darlledu. Dywedodd hefyd bod yr adran yn disgwyl i gael clywed a oedd y tyrbin arfaethedig ar gyfer defnydd personol.

Edrychodd yr Aelodau wedyn ar safle'r cais o le arall oedd yn rhoi golygfa ehangach o safle'r cais i gyd a hefyd ei berthynas â phentref Penysarn, a chafwyd syniad gwell o effaith weledol debygol y cynnig.  Ar gais yr Is-Gadeirydd, edrychodd yr Aelodau o bellter ar leoliad arall lle'r oedd tyrbin gwynt oedd yn cael ei ystyried fel un tebyg o ran ei ddyluniad i'r un a fwriedir yma.

**Y Cynghorydd J.Arwel Roberts**
**Cadeirydd**